# Ymgynghoriad ar Newidiadau Posibl i Wasanaeth Ailgylchu a Gwastraff Ynys Môn

Dadansoddiad o Ymatebion

**Dyddiad yr ymchwil:** Ebrill 2026
**Cod y prosiect:** COL200 - 095

# Ynglŷn â WRAP

Corff anllywodraethol gweithredu amgylcheddol byd-eang yw WRAP, sy'n trawsnewid ein systemau nwyddau a bwyd i greu Ffordd Gylchol o Fyw. Rydym yn archwilio heriau cynaliadwyedd drwy lens bywydau beunyddiol pobl. Rydym yn trawsnewid y systemau sy'n cyflenwi'r nwyddau a ddefnyddiwn. Rydym yn gweithio fel catalydd i weithredu gan lunwyr polisïau, busnesau, sefydliadau anllywodraethol a dinasyddion i wireddu hyn.

**Cyfeirnod y ddogfen**

COL200-095

Ymgynghoriad ar Newidiadau Posibl i Wasanaeth Ailgylchu a Gwastraff Ynys Môn

**Ysgrifennwyd gan**

Circular Resource Specialists (CRS) Ltd

**Ymwadiad:** Er ein bod wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau bod yr adroddiad hwn yn gywir, nid yw WRAP yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golled, difrod, cost, neu draul a achosir neu sy'n deillio o ddibynnu ar yr adroddiad hwn. Mae darllenwyr yn gyfrifol am asesu cywir deb a chasgliadau cynnwys yr adroddiad hwn. Mae dyfyniadau ac astudiaethau achos wedi'u tynnu o'r parth cyhoeddus, a gofynnwyd am ganiatâd lle bo hynny'n ymarferol. Nid yw'r adroddiad hwn yn cynrychioli cefnogaeth i'r enghreifftiau a ddefnyddiwyd ac nid yw wedi'i gymeradwyo gan y sefydliadau a'r unigolion sy'n rhan ohono. Mae'r deunydd hwn yn destun hawlfraint. Cewch ei gopïo am ddim a gallwch ddefnyddio dyfyniadau ohono ar yr amod nad ydynt yn cael eu defnyddio mewn cyd -destun camarweiniol, a rhaid i chi n odi ffynhonnell y deunydd a chydnabod hawlfraint WRAP. Rhaid i chi beidio â defnyddio'r adroddiad hwn na'r deunydd ohono i gymeradwyo neu awgrymu bod WRAP wedi cymeradwyo cynnyrch neu wasanaeth masnachol.

I gael rhagor o fanylion, gweler telerau ac amodau WRAP ar ein gwefan yma **www.wrap.ngo**

# Tabl Cynnwys


1.0 Crynodeb Gweithredol 5

2.0 Crynodeb 7

2.1 Trosolwg 7

3.0 Dull Dadansoddol 8

3.1 Camddefnydd 8

3.2 Methodoleg a Chategoreiddio 9

4.0 Cwestiynau ac Ymatebion 10

4.1 Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: "Mae cyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% ar Ynys Môn yn bwysig"? 10

4.2 Cwestiwn 2: Pam ydych chi'n teimlo nad yw'n bwysig cyrraedd targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% ar Ynys Môn? 10

4.3 Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: "Mae ailgylchu gartref yn hawdd"? 12

4.4 Cwestiwn 4: Pam rydych chi'n cael anhawster i ailgylchu? 12

4.5 Cwestiwn 5: Pa mor llawn yw eich blychau ailgylchu, bin bwyd a bin du pan fyddent yn cael eu casglu? 15

4.6 Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: "Byddai'r opsiynau storio ychwanegol wedi eu darparu gan Cyngor Sir Ynys Môn yn eich helpu i ailgylchu mwy" 18

4.7 Cwestiwn 7: Pam ydych chi'n teimlo na fyddech chi'n ailgylchu mwy pe bai Cyngor Sir Ynys Môn yn darparu opsiynau storio ychwanegol i chi ar gyfer eich ailgylchu? 19

4.8 Cwestiwn 8: Ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu newid y casgliad biniau du o bob 3 wythnos i bob 4 wythnos? 20

4.9 Cwestiwn 9: Pam ydych chi'n gwrthwynebu newid y casgliad biniau du o bob 3 wythnos i bob 4 wythnos? 20

4.9.1. Dadansoddiad Ystod Oedran 22

4.10 Cwestiwn 10: Dywedwch wrthym am unrhyw bryderon, awgrymiadau neu amgylchiadau cartref a allai effeithio ar sut rydych chi'n ailgylchu a rheoli gwastraff. 23

4.11 Cwestiwn 11: Beth yw eich cod post? Mae hyn yn ein helpu i ddeall gwahanol dueddiadau mewn gwahanol rannau o Ynys Môn. 24

4.12 Cwestiwn 12: Faint o bobl sy'n byw yn eich cyfeiriad? 25

4.13 Cwestiwn 13: Beth yw eich ystod oedran? 27

4.14 Cwestiwn 14: Ydych chi'n defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau hyn? Dewiswch bob un sy'n berthnasol i chi. 29

4.15 Cwestiwn 15: Ydych chi'n credu y byddai unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth ailgylchu a chasglu gwastraff yn effeithio ar y Gymraeg? 30

# 1.0 Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg cyhoeddus a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn 2026 ynghylch newidiadau posibl i wasanaethau casglu gwastraff ac ailgylchu cartrefi. Rhoddodd cyfanswm o 4,177 o gyfranogwyr ymatebion meintiol ac ansoddol i gyfres o 15 cwestiwn.

Roedd y dull dadansoddol yn cynnwys asesiad meintiol a chategoreiddio thematig o ymatebion testun agored. Cynhaliwyd adolygiad hefyd i asesu cyflwyniadau dyblyg neu anarferol posibl, ond ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o gamddefnydd eang.

At ei gilydd, mae'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gref i ailgylchu a chyflawni targedau ailgylchu cenedlaethol, ond gwrthwynebiad i gynigion i leihau amlder casglu gwastraff gweddilliol o bob tair wythnos i bob pedair wythnos. Nododd ymatebwyr bryderon yn ymwneud â chapasiti gwastraff gweddilliol, maint cynwysyddion ailgylchu, maint aelwydydd, hylendid, plâu, ac ymarferoldeb storio gwastraff am gyfnodau hwy. Ar draws y cwestiynau, roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod y capasiti ailgylchu presennol yn annigonol. Ar yr un pryd, nododd cyfran o'r ymatebwyr y gallai mwy o gapasiti storio ailgylchu neu ehangu gwasanaethau ailgylchu helpu i wella perfformiad ailgylchu.

Dangosodd data demograffig a gasglwyd fel rhan o'r arolwg fod aelwydydd mwy ac ymatebwyr 35-64 oed wedi'u gorgynrychioli yn yr ymatebion ymgynghori o'i gymharu â phoblogaeth ehangach Ynys Môn, ac roedd oedolion iau ac aelwydydd un person wedi'u tangynrychioli. Nododd y dadansoddiad gysylltiadau cyson rhwng oedran a phatrymau cynhyrchu gwastraff, gyda'r ymatebwyr iau yn fwy tebygol o sôn am gynwysyddion ailgylchu a gwastraff gweddilliol mwy llawn. Roedd ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o godi pryderon ynghylch hylendid ac ymarferoldeb cyfnodau hwy rhwng casgliadau.

Canfu'r ymgynghoriad fod 76% o'r ymatebwyr yn cytuno bod cyflawni targed ailgylchu 70% Llywodraeth Cymru yn bwysig, gan ddangos cefnogaeth eang i amcanion amgylcheddol. Fodd bynnag, ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno, y prif resymau oedd blaenoriaethau personol cystadleuol, amheuaeth ynghylch polisi cenedlaethol, amheuon ynghylch effaith ailgylchu ar newid hinsawdd, a chanfyddiadau bod newidiadau i wasanaethau yn bennaf dan gymhelliad ariannol.

Er bod 60% o’r ymatebwyr wedi nodi bod ailgylchu gartref yn hawdd, roedd bron i chwarter yn anghytuno. Y rhwystrau a adroddwyd amlaf oedd diffyg lle a chapasiti annigonol mewn cynwysyddion ailgylchu. Gofynnwyd droeon hefyd am gasglu deunyddiau ychwanegol ar garreg y drws, yn enwedig ffilm blastig, batris a thecstilau.

Dangosodd dadansoddiad llawnder cynwysyddion gyfraddau defnyddio uchel ar gyfer cynwysyddion ailgylchu a gwastraff gweddilliol. Dywedodd dros 80% o’r ymatebwyr fod blychau ailgylchu plastigion/caniau a gwydr/cardbord yn llawn ar neu cyn y diwrnod casglu, ac fe nododd 76% yr un peth am finiau gwastraff gweddilliol. Daeth llawer o'r ymatebion hyn gan aelwydydd sy'n cynnwys tri neu lai o breswylwyr, sy'n awgrymu nad yw pryderon ynghylch capasiti wedi'u cyfyngu i aelwydydd mwy yn unig.

Nododd yr ymgynghoriad gefnogaeth gref i gynyddu'r ddarpariaeth storio ailgylchu, gyda 69% yn nodi y byddent yn ailgylchu mwy pe bai opsiynau storio ychwanegol ar gael.

Roedd 80% o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu neu'n gwrthwynebu'n gryf i’r cynnig i symud o gasgliadau gwastraff gweddilliol bob 3 wythnos i bob 4 wythnos, gyda 10% yn mynegi cefnogaeth. Pryder a godwyd gan hanner yr ymatebwyr i'r cwestiwn agored cysylltiedig oedd bod aelwydydd eisoes yn cynhyrchu gormod o wastraff gweddilliol i'w reoli o fewn yr amlder casglu arfaethedig. Roedd pryderon ychwanegol yn cynnwys aelwydydd mwy, mwy o dipio anghyfreithlon, problemau hylendid, plâu, a chapasiti ailgylchu annigonol. Cynyddodd pryderon ynghylch cyfnodau casglu hirach a hylendid gydag oedran, ac roedd ymatebwyr canol oed yn fwy tebygol o nodi maint yr aelwyd a chyfaint y gwastraff fel rhwystrau allweddol.

Yn olaf, archwiliodd yr ymgynghoriad a allai newidiadau i wasanaethau gwastraff effeithio ar y Gymraeg. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo mai ychydig iawn o effaith fyddai’n ei chael, neu ddim effaith o gwbl. Fodd bynnag, pwysleisiodd rhai bwysigrwydd cynnal cyfathrebu dwyieithog, argaeledd gwasanaeth yn Gymraeg, a darpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg. Nododd nifer fach effeithiau anuniongyrchol yn ymwneud â rhyngweithio cymunedol, cyflogaeth, neu newid demograffig ehangach.

# 2.0 Crynodeb

## 2.1 Trosolwg

Er mwyn cyrraedd targedau ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru a dangos ei uchelgais ar gyfer ei seilwaith ailgylchu a gwastraff yn y sir, cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) Arfarniad Opsiynau manwl yn 2024. Asesodd yr asesiad hwn y dull sy'n perfformio orau ac sy'n fwyaf cost-effeithiol ar gyfer cynyddu faint o ailgylchu sych a gwastraff bwyd sy'n cael ei gasglu yn ei gasgliadau ar garreg y drws. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau i amlder/capasiti casglu gwastraff gweddilliol.

Ar ddechrau 2026, cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad cyhoeddus ar y camau gweithredu a nodwyd yn yr arfarniad opsiynau. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pymtheg cwestiwn a oedd yn casglu gwybodaeth feintiol ac ansoddol gan gyfranogwyr. Derbyniwyd cyfanswm o 4,177 o ymatebion. Mae'r ddogfen ganlynol yn cyflwyno'r canlyniadau a'r prif ganfyddiadau.

Roedd yr ymgynghoriad ei hun yn cynnwys amrywiaeth o gwestiynau, ac roedd rhai ohonynt yn caniatáu i ymatebwyr gynnwys eu meddyliau a'u materion eu hunain. Yn yr achosion hyn, mae'r ymatebion wedi cael eu hasesu a'u grwpio yn ôl themâu cyffredin.

# 3.0 Dull Dadansoddol

Mae'r adran hon yn amlinellu'r dull dadansoddi, gan gynnwys adolygiad o ansawdd a chynrychioldeb yr ymatebion ochr yn ochr â chategoreiddio data meintiol ac ansoddol i wneud allbynnau ystyrlon yn bosibl.

## 3.1 Camddefnydd

Cynhaliwyd adolygiad o uniondeb data i asesu a oedd unrhyw ymatebwyr wedi cyflwyno sawl cofnod i'r ymgynghoriad. Archwiliodd yr adolygiad yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad am gyflwyniadau dyblyg neu anarferol posibl gan ddefnyddio cyfuniad o:

- dadansoddiad o'r un cyfeiriad IP dro ar ôl tro;
- cyfuniadau ailadroddus o godau post a chyfeiriadau IP;
- adolygiad o batrymau stamp amser;
- cymharu cyflwyniadau dro ar ôl tro o'r un ffynhonnell ar amseroedd wedi'u clystyru'n agos at ei gilydd; a
- cymhariaeth o debygrwydd testun rhydd a phatrwm ymateb ar draws cofnodion a allai fod yn gysylltiedig.

Nodwyd nifer fach o glystyrau IP/cod post ailadroddus a'u harchwilio'n agosach. Cynhaliwyd adolygiad llaw ychwanegol o'r rhain i asesu a oeddent yn dynodi cyflwyniadau dyblyg bwriadol ynteu ymatebion lluosog dilys o'r un aelwyd neu gysylltiad rhyngrwyd a rennir. Canfu'r dadansoddiad:

- dim tystiolaeth o weithgarwch cyflwyno dyblyg neu dwyllodrus eang;
- dim cofnodion ymateb llawn wedi'u dyblygu'n union;
- dim achosion lle dangosodd cyflwyniadau dro ar ôl tro dystiolaeth gref o gynnwys ymateb wedi'i gopïo neu ei atgynhyrchu.

Mewn nifer gyfyngedig o achosion, tarddodd ymatebion lluosog o'r un cysylltiad rhyngrwyd aelwyd; fodd bynnag, dangosodd y rhain batrymau ymateb gwahanol iawn ac fe'u hystyrir yn fwy tebygol o gynrychioli ymatebwyr dilys ar wahân o fewn yr un aelwyd na gwyro bwriadol drwy ddyblygu.

## 3.2 Methodoleg a Chategoreiddio

Cafodd data meintiol o gwestiynau caeedig (gan gynnwys ymatebion ie/na, cwestiynau graddio, a dewisiadau yn seiliedig ar opsiynau) eu crynhoi a'u dadansoddi i gynhyrchu allbynnau cryno fel cyfrifon a chanrannau.

Adolygwyd ymatebion i gwestiynau ansoddol (penagored) yn fanwl. Ar gyfer pob cwestiwn, datblygwyd set strwythuredig o gategorïau i adlewyrchu'r themâu a'r materion allweddol a godwyd gan yr ymatebwyr.

Dadansoddwyd y data meintiol a'r ymatebion ansoddol wedi'u categoreiddio, gyda siartiau, tablau a graffiau wedi'u cynhyrchu i gyflwyno'r canfyddiadau'n glir. Mae pob adran yn cynnwys crynodeb naratif i amlygu patrymau allweddol, tynnu sylw at naws wahanol, a darparu dehongliad yng nghyd-destun y strategaeth ddatblygol.

Pan fo'n berthnasol, cafodd themâu trawsbynciol a materion a nodwyd ar draws nifer o gwestiynau eu harchwilio'n fanylach, a darparwyd sylwebaeth ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys ystyried cysylltiadau â meysydd pwnc penodol a, phan fo'n briodol, amrywiadau yn ôl math o ymatebydd (er enghraifft, nodweddion demograffig).

Er hwylustod cyflwyno'r wybodaeth, mae rhai gwerthoedd canrannol wedi'u talgrynnu – ac felly gall rhai cyfansymiau fod yn hafal i +/- 1 pwynt canran i'r naill ochr a'r llall i 100%.

### *Defnyddio Arall / Amherthnasol wrth gategoreiddio*

Yn ystod y broses o gategoreiddio'r cwestiynau agored, canfuwyd bod rhai sylwadau'n disgyn i ddau grŵp – 'Arall' ac 'Amherthnasol', a disgrifir y rhain isod ynghyd â'r dull o'u hintegreiddio yn y canlyniadau:

- **Arall:** dyma ymatebion sy'n berthnasol i wasanaethau/gweithgareddau gwastraff yn gyffredinol ond sydd naill ai'n rhy benodol neu'n rhy bersonol i'r ymatebydd, ac felly nid ydynt yn cyfiawnhau nac angen categori ar wahân. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r rhain wedi'u grwpio a'u cynnwys yn y tablau dadansoddi.

- **Ddim yn berthnasol:** sylwadau yw'r rhain nad ydynt yn berthnasol i'r cwestiwn sy'n cael ei ofyn na'r strategaeth wastraff yn gyffredinol. Mae'r niferoedd ar gyfer y rhain wedi'u cynnwys yn y tablau dadansoddi er mwyn cyflawnrwydd.

# 4.0 Cwestiynau ac Ymatebion

## 4.1 Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: "Mae cyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% ar Ynys Môn yn bwysig"?




Ffigur 1: Mae cyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% ar Ynys Môn yn bwysig

Dangosir nifer a chyfran yr ymatebion yn y ffigur uchod. Ymatebodd cyfanswm o 4,173 o bobl i'r cwestiwn hwn, ac roedd 76% ohonynt naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf. Dim ond 7% oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, ac nid oedd 17% yn cytuno nac yn anghytuno.

## 4.2 Cwestiwn 2: Pam ydych chi'n teimlo nad yw'n bwysig cyrraedd targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% ar Ynys Môn?

Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i Gwestiwn 1 gan ddatgan nad oeddent yn ystyried ei bod yn bwysig i Ynys Môn gyflawni targed Llywodraeth Cymru o 70% nodi pam. Ymatebodd 300 o bobl i gwestiwn 1 gan ddweud eu bod naill ai'n anghytuno neu'n

anghytuno'n gryf bod cyflawni targedau Llywodraeth Cymru yn bwysig – rhoddodd 272 o'r rheiny'r ymatebion canlynol ynghylch pam eu bod yn meddwl hyn:

Tabl 1: Sylwadau ar bwysigrwydd cyrraedd targedau ailgylchu

| Categori | Cyfrif | % |
|---|---|---|
| Blaenoriaethau eraill | 49 | 18% |
| Polisi cenedlaethol – amheuaeth | 43 | 16% |
| Arall | 40 | 15% |
| Ddim yn berthnasol | 35 | 13% |
| Amheuaeth ynghylch yr effaith | 21 | 8% |
| Effaith fyd-eang | 20 | 7% |
| Polisi cenedlaethol | 18 | 7% |
| Cymhelliad arbed cost | 17 | 6% |
| Diffyg cyfrifoldeb/diddordeb personol | 12 | 4% |
| Yn gwneud digon eisoes | 8 | 3% |
| Eisiau proffil gwasanaeth gwahanol | 5 | 2% |
| Eisiau i fwy o ddeunyddiau gael eu hailgylchu | 4 | 1% |

O'r ymatebion, dywedodd 18% eu bod yn teimlo bod ganddynt flaenoriaethau eraill, pwysicach yn eu bywydau na chyrraedd targedau ailgylchu.

Tynnodd 16% arall sylw at amheuaeth ynghylch dilysrwydd polisi cenedlaethol Cymru. Mynegodd llawer o'r rhain y farn bod targed o 70% yn ffigur mympwyol, ac nad oedd dewis y targed hwn yn seiliedig ar unrhyw ddata gwyddonol. Mae hyn yn dangos diffyg ymwybyddiaeth gan ymatebwyr am yr ymchwil a'r dadansoddiad cyfansoddiadol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru i ategu'r targedau ac ychwanegu cyfraniad at flaenoriaethau newid hinsawdd.

Rhoddodd 15% o bobl atebion penodol i amgylchiadau personol nad oeddent yn ffitio i unrhyw gategori diffiniedig ac maent wedi'u dosbarthu fel Arall, a rhoddodd 13% pellach atebion a oedd, er eu bod yn gysylltiedig â gwastraff ac ailgylchu, yn amherthnasol i'r cwestiwn penodol hwn.

Nododd 7% o'r ymatebion eu bod yn teimlo y byddai ailgylchu – ar lefel leol a Chymru gyfan – yn cael ychydig iawn o effaith ar fygythiad newid hinsawdd ar raddfa fyd-eang. Teimlai 7% arall fod angen newid polisi cenedlaethol – yn bennaf i leihau'r swm o becynwaith a chynyddu ailgylchadwyedd deunyddiau.

Dywedodd 6% mai er mwyn i CSYM gael arbed arian yn unig mae'r ymarfer hwn yn digwydd.

Nododd 4% nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn ailgylchu, ac roedd 3% yn teimlo eu bod eisoes yn ailgylchu digon.

Roedd 2% yn teimlo y byddai math gwahanol o wasanaeth yn cefnogi cyrraedd targedau, ac roedd 1% eisiau gweld mwy o ddeunyddiau'n cael eu hailgylchu ar garreg y drws (ffilm blastig yn gyffredinol, y disgwylir i'r deunydd hwn gael ei gyflwyno fel rhan o bolisi cenedlaethol Cymru yn 2027).

## 4.3 Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: "Mae ailgylchu gartref yn hawdd"?




Ffigur 2: Mae ailgylchu gartref yn hawdd

Roedd 60% o bobl naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod ailgylchu gartref yn hawdd. Teimlai 24% nad yw'n hawdd, ac roedd 14% arall ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

## 4.4 Cwestiwn 4: Pam rydych chi'n cael anhawster i ailgylchu?

Darparwyd yr ystod ganlynol o opsiynau i'r rhai a ddywedodd eu bod yn ei chael yn anodd ailgylchu. Sylwer bod pobl yn gallu ymateb i fwy nag un o'r opsiynau.

Roedd Cwestiwn 4 yn cynnig yr opsiynau canlynol ar gyfer ymateb 'Ie' neu 'Na' (nodwch: ni chafodd cwestiwn 4.1 ei gynnwys yn yr ymgynghoriad cyhoeddus):

- 4.2. Dim digon o le / cynwysyddion ailgylchu yn rhy fach.
- 4.3. Ddim yn siŵr beth ellir ei ailgylchu ac na ellir ei ailgylchu.
- 4.4. Ddim yn cynhyrchu llawer o ailgylchu.
- 4.5. Mae ailgylchu yn flêr ac yn fudur.
- 4.6. Lle dan do i storio cyn rhoi deunyddiau y tu allan yn gyfyng.
- 4.7. Anawsterau corfforol (codi, cario, symudedd)
- 4.8. Dim diddordeb mewn ailgylchu.
- 4.9. Arall (sylwer).

Mae Ffigur 3 yn dangos nifer y bobl a atebodd Ie neu Na i gwestiynau 4.2-4.8 uchod allan o'r 996 a anghytunodd/anghytunodd yn gryf â chwestiwn 3.




Ffigur 3: Pam rydych chi'n cael anhawster i ailgylchu? (Cyfrif atebion Ie – cyfanswm yr ymatebwyr = 996)

Dywedodd 871 o'r 996 (87%) a oedd yn anghytuno/anghytuno'n gryf â chwestiwn 3 nad oedd ganddynt ddigon o le a bod y Bocs Troli yn rhy fach. Mae hyn yn gyson â'r ymatebion i Gwestiwn 10, lle dywedodd 23% mai eu prif bryder oedd nad oedd y capasiti ar gyfer ailgylchu yn ddigonol.

Dywedodd 272 o'r 996 (27%) nad oeddent yn siŵr beth y gellid ei ailgylchu.

Dim ond 9 o'r 996 (>1%) ddywedodd nad ydyn nhw'n cynhyrchu llawer o ailgylchu.

Dywedodd 157 o'r 996 (16%) eu bod yn cael anhawster ailgylchu oherwydd problemau hylendid canfyddedig.

Dywedodd 419 o'r 996 (42%) fod storio cynwysyddion yn broblem iddyn nhw.

Tynnodd 147 o'r 996 (15%) sylw at broblemau corfforol yn ymwneud â symud deunyddiau i'w casglu.

Dim ond 16 o'r 996 (2%) a ddywedodd nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn ailgylchu.

Ar gyfer Cwestiwn 4.9 "Arall (eglurwch os gwelwch yn dda)", rhoddodd 437 o gyfranogwyr ymateb, mae'r rhain wedi'u categoreiddio a'u crynhoi yn Nhabl 2 isod.

Tabl 2: Sylwadau eraill ar anawsterau ailgylchu

| Categori | Cyfrif | % |
|---|---|---|
| Cynwysyddion yn rhy fach | 75 | 22% |
| Problemau cynwysyddion | 61 | 18% |
| Problemau Casglu | 49 | 14% |
| Eisiau i fwy o ddeunyddiau gael eu hailgylchu | 48 | 14% |
| Eisiau proffil gwasanaeth gwahanol | 40 | 12% |
| Arall | 33 | 10% |
| Ddim yn berthnasol | 9 | 3% |
| Maint yr aelwyd | 7 | 2% |
| Cyfyngiadau corfforol | 7 | 2% |
| Lle ar gyfer storio cynwysyddion | 7 | 2% |
| Pryderon ynghylch fermin/plâu | 3 | 1% |
| Hylendid | 2 | 1% |
| Yr amser/ymdrech sydd ei angen | 2 | 1% |
| Ffrydiau gwastraff penodol i aelwydydd | 1 | 0.3% |
| Diffyg gwybodaeth/dryswch | 1 | 0.3% |
| Gwasanaethau Eraill yr ALl | 1 | 0.3% |
| Gwasanaeth yn rhy gymhleth | 1 | 0.3% |

At ei gilydd, cododd 54% faterion yn ymwneud â chasgliadau yn trafod pam eu bod yn cael anhawster i ailgylchu. Roedd y rhain yn cynnwys bod y Bocs Troli yn rhy fach ar gyfer yr holl ddeunyddiau ailgylchadwy (22%), eu bod wedi cael problemau gyda'r Bocs Troli – yn gyffredinol, eu bod yn chwythu o gwmpas yn y gwynt a/neu'n cael eu difrodi'n hawdd – (18%), a'u bod wedi cael problemau casglu – yn bennaf

criwiau casglu ddim yn gwasanaethu casgliadau'n iawn neu'n difrodi cynwysyddion – (14%).

Roedd 14% o'r ymatebwyr eisiau mwy o ddeunyddiau gael eu hailgylchu ar garreg y drws, roedd nifer o'r rhain yn tynnu sylw at ffilm blastig, ac roedd eraill eisiau adfer casgliadau batris a thecstilau.

Teimlai 12% y byddai dull casglu gwahanol (fel arfer un bin ar gyfer casglu ailgylchu cymysg) yn gwneud ailgylchu'n haws.

Rhoddodd 10% o bobl resymau nad oeddent yn ffitio i gategorïau penodol, ac ychydig iawn o ymatebion cyfunol a gafodd y categorïau sy'n weddill.

## 4.5 Cwestiwn 5: Pa mor llawn yw eich blychau ailgylchu, bin bwyd a bin du pan fyddent yn cael eu casglu?

Roedd Cwestiwn 5 yn rhoi'r opsiynau canlynol ar gyfer ymateb (dangosir yr opsiynau a'r ymatebion yn Ffigur 4):

- 5.1. Blwch uchaf y troli ailgylchu (papur)
- 5.2. Blwch canol y troli ailgylchu (plastig, caniau)
- 5.3. Blwch gwaelod y troli ailgylchu (gwydr, cardbord)
- 5.4. Bin bwyd
- 5.5. Bin du




| | Blwch uchaf y troli ailgylchu (papur) | Blwch canol y troli ailgylchu (plastig, caniau) | Blwch gwaelod y troli ailgylchu (gwydr, cardbord) | Bin bwyd | Bin du |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim Ateb | 0% | 0% | 0% | 1% | 0% |
| Llawn cyn y diwrnod casglu | 18% | 51% | 53% | 15% | 51% |
| Llawn | 11% | 30% | 29% | 23% | 25% |
| Tri chwarter llawn | 9% | 10% | 9% | 14% | 12% |
| Hanner llawn | 16% | 6% | 5% | 14% | 8% |
| Chwarter llawn neu lai | 34% | 1% | 2% | 6% | 4% |
| Ddim yn ei defnyddio | 11% | 1% | 1% | 27% | 0% |

Ffigur 4: Pa mor llawn yw eich blychau ailgylchu, bin bwyd a bin du pan fyddent yn cael eu casglu?

### 4.5.1. Bocs Troli

**Blwch Uchaf:** Mae 29% o'r ymatebwyr yn nodi bod eu cynhwysydd papur yn llawn ar neu cyn eu diwrnod casglu. Er bod hyn yn is nag adrannau eraill y Bocs Troli, efallai ei fod yn arwydd bod symiau llai o bapur yn cael eu cynhyrchu o'i gymharu â deunyddiau ailgylchu sych eraill.

**Blwch Canol:** Mae 81% yn dweud bod eu cynhwysydd plastig a chaniau yn llawn ar neu cyn y diwrnod casglu. Mae dadansoddiad pellach o'r ymatebwyr hyn yn dangos bod 58% o'r rhain o aelwydydd â 3 neu lai o breswylwyr. Mae'n bosibl bod y nifer fawr o aelwydydd llai sy'n nodi problemau gyda'r capasiti sydd ar gael fod yn arwydd bod y Blwch Troli o bosibl yn rhy fach i gynnwys faint o ailgylchu sych a gynhyrchir gan y rhan fwyaf o aelwydydd.

**Blwch Gwaelod:** Dywedodd 82% o bobl fod eu cynhwysydd gwydr a chardbord yn llawn ar neu cyn eu diwrnod casglu. O'r rhain roedd 57% o aelwydydd o 3 neu lai. Mae’n bosibl bod y nifer fawr o aelwydydd llai sy'n nodi problemau gyda'r capasiti sydd ar gael fod yn arwydd bod y Bocs Troli o bosibl yn rhy fach i gynnwys faint o ailgylchu sych a gynhyrchir gan y rhan fwyaf o aelwydydd.

### 4.5.2. Gwastraff Bwyd

Dywedodd 23% o’r ymatebwyr fod eu bin bwyd yn llawn ar eu diwrnod casglu, a dim ond 15% o’r ymatebwyr ddywedodd fod eu bin yn llawn cyn y diwrnod casglu.

Ar y lefelau dal presennol, mae'n ymddangos bod y capasiti yn ddigonol i'r rhan fwyaf o aelwydydd.

Dywedodd 27% o'r ymatebwyr nad ydyn nhw'n defnyddio'r bin gwastraff bwyd.

### 4.5.3. Gwastraff Gweddilliol

**Bin du:** Nododd 76% o’r ymatebion fod biniau du yn llawn ar neu cyn eu diwrnod casglu.

O'r rhai a nododd fod eu biniau'n llawn ar eu diwrnod casglu, roedd 93% o aelwydydd ag 1-4 o breswylwyr.

O'r rhai a nododd fod eu biniau'n llawn cyn eu diwrnod casglu, roedd 79% o aelwydydd ag 1-4 o breswylwyr.

Rhai o’r rhesymau posibl pam mae cymaint o breswylwyr ar aelwydydd o bedwar neu lai yn dweud bod eu biniau eisoes yn llawn ar neu cyn y diwrnod casglu yw nad ydyn nhw'n defnyddio eu gwasanaeth ailgylchu a gwastraff bwyd wythnosol yn llawn, neu nad oes digon o le ganddynt yn eu Bocs Troli a’u bod yn gorfod gwaredu deunyddiau ailgylchadwy yn eu gwastraff gweddilliol.

### 4.5.4. Dadansoddiad oedran

Nododd dadansoddiad o lawnder cynwysyddion a adroddwyd yn ôl ystod oedran berthynas gyson rhwng oedran a pha mor llawn oedd cynwysyddion ar y diwrnod casglu. Ar draws pob ffrwd wastraff ac ailgylchu, roedd ymatebwyr iau yn gyffredinol yn dweud bod eu cynwysyddion yn llawnach o’i gymharu ag ymatebwyr hŷn. Roedd y duedd hon gryfaf ar gyfer y bin gwastraff gweddilliol du a chynwysyddion ailgylchu cymysg, lle'r oedd ymatebwyr 18-44 oed yn llawer mwy tebygol o nodi bod cynwysyddion yn "llawn" neu'n "llawn cyn diwrnod casglu". Roedd ymatebwyr 65 oed neu hŷn yn fwy tebygol o nodi mai dim ond rhannol lawn oedd eu cynwysyddion adeg casglu.

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y gallai aelwydydd iau gynhyrchu symiau uwch o wastraff gweddilliol a deunyddiau ailgylchu, a allai adlewyrchu gwahaniaethau ym meintiau aelwydydd, patrymau defnyddio, lefelau meddiannaeth, neu ddefnydd pecynwaith. Roedd y berthynas rhwng oedran a llawnder yn wannach ar gyfer ailgylchu papur nag ar gyfer ffrydiau gwastraff eraill, gan ddangos llai o amrywiad rhwng grwpiau oedran ar gyfer cyfeintiau papur. At ei gilydd, mae'r dadansoddiad yn dangos cysylltiad cymedrol ond cyson rhwng grwpiau oedran iau (18-44) a defnydd uwch o gynwysyddion a adroddir ar draws y system gasglu.

## 4.6 Cwestiwn 6: Ydych chi’n cytuno neu'n anghytuno â’r datganiad canlynol: "Byddai'r opsiynau storio ychwanegol wedi eu darparu gan Cyngor Sir Ynys Môn yn eich helpu i ailgylchu mwy"




Ffigur 5: Byddai'r opsiynau storio ychwanegol wedi eu darparu gan Cyngor Sir Ynys Môn yn eich helpu i ailgylchu mwy

Dywedodd 69% o’r ymatebwyr y byddai mwy o gapasiti storio yn annog mwy o ailgylchu. Dylid nodi y byddai cynnydd yn y swm a ailgylchir yn arwain at ostyngiad cymesur mewn gwastraff gweddilliol, gan leihau'r pwysau ar gapasiti gwastraff gweddilliol.

## 4.7 Cwestiwn 7: Pam ydych chi'n teimlo na fyddech chi'n ailgylchu mwy pe bai Cyngor Sir Ynys Môn yn darparu opsiynau storio ychwanegol i chi ar gyfer eich ailgylchu?

Derbyniwyd 562 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Tabl 3: Sylwadau eraill ar anawsterau ailgylchu

| Categori | Cyfrif | % |
|---|---|---|
| Ailgylchu digon eisoes | 165 | 29% |
| Cynwysyddion digonol | 103 | 18% |
| Ddim yn berthnasol | 73 | 13% |
| Arall | 63 | 11% |
| Lle ar gyfer storio cynwysyddion | 50 | 9% |
| Gormod o wastraff gweddilliol | 33 | 6% |
| Eisiau i fwy o ddeunyddiau gael eu hailgylchu | 31 | 6% |
| Eisiau proffil gwasanaeth gwahanol | 14 | 2% |
| Problemau cynwysyddion | 8 | 1% |
| Problemau gyda chasgliadau | 7 | 1% |
| Addysg ac ymwybyddiaeth | 5 | 1% |
| Maint yr aelwyd | 3 | 1% |
| Hylendid | 3 | 1% |
| Cyfyngiadau amser | 3 | 1% |
| Gwasanaethau Gwastraff Eraill yr ALl | 1 | 0.2% |

Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd na fyddent yn ailgylchu mwy gydag opsiynau storio ychwanegol roi rhesymau pam. O'r 585 o ymatebion Anghytuno neu Anghytuno'n Gryf a dderbyniwyd, ymatebodd 562 o bobl i hyn.

Dywedodd 29% eu bod eisoes yn ailgylchu digon.

Dywedodd 18% fod y capasiti sydd ar gael o fewn y Bocs Troli yn ddigonol. Pan gawsant eu gwirio, roedd 81% o'r ymatebion hyn o gartrefi o 3 neu lai ac felly byddent yn cynhyrchu llai o ailgylchu na chartrefi mwy.

Dywedodd 9% na fyddai ganddyn nhw le ar gyfer storio ychwanegol. Dywedodd 6% fod ganddyn nhw ormod o wastraff gweddilliol, a dywedodd 6% arall eu bod nhw eisiau ystod ehangach o ddeunyddiau a gesglir o fewn ailgylchu ar garreg y drws.

Ystyriwyd nad oedd 13% o'r ymatebion yn berthnasol i'r cwestiwn ac roedd 11% pellach o'r ymatebion yn rhy benodol i'w categoreiddio ac fe'u dosbarthir fel Arall.

## 4.8 Cwestiwn 8: Ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu newid y casgliad biniau du o bob 3 wythnos i bob 4 wythnos?




Ffigur 6: Ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu newid y casgliad biniau du o bob 3 wythnos i bob 4 wythnos?

Ymatebodd 4,029 o bobl gyda 2,743 yn gwrthwynebu'n gryf a 577 yn gwrthwynebu – cyfanswm o 80% o'r holl ymatebion. Roedd 410 (10%) yn niwtral, a 443 (10%) naill ai'n cefnogi neu'n cefnogi'n gryf.

## 4.9 Cwestiwn 9: Pam ydych chi'n gwrthwynebu newid y casgliad biniau du o bob 3 wythnos i bob 4 wythnos?

Ymatebodd 3,245 i'r cwestiwn agored hwn a chrynhoir eu hadborth yn Nhabl 4 isod.

Tabl 4: Sylwadau eraill ar anawsterau ailgylchu

| Categori | Cyfrif | % |
|---|---|---|
| Gormod o wastraff gweddilliol | 1607 | 50% |
| Maint yr aelwyd | 441 | 14% |
| Pryderon ynghylch cynnydd mewn tipio anghyfreithlon | 261 | 8% |
| Hylendid | 198 | 6% |
| Amlder casglu'n rhy hir | 154 | 5% |
| Pryderon ynghylch fermin/plâu | 123 | 4% |
| Cynwysyddion yn rhy fach | 116 | 4% |
| Arall | 101 | 3% |
| Treth y cyngor / torri costau | 92 | 3% |
| Ffrydiau gwastraff penodol i aelwydydd | 48 | 1% |
| Eisiau i fwy o ddeunyddiau gael eu hailgylchu | 33 | 1% |
| Eisiau proffil gwasanaeth gwahanol | 22 | 1% |
| Problemau gyda chasgliadau | 12 | 0.4% |
| Addysg ac ymwybyddiaeth | 12 | 0.4% |
| Gwasanaethau gwastraff eraill yr ALl | 11 | 0.3% |
| Lle ar gyfer storio cynwysyddion | 10 | 0.3% |
| Gwrthwynebiad cyffredinol | 2 | 0.1% |
| Anghyfleustra | 1 | 0.03% |
| Polisi cenedlaethol | 1 | 0.03% |

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn gwrthwynebu neu'n gwrthwynebu'n gryf pam. Derbyniwyd 3,462 o ymatebion i'r cwestiwn hwn – mwy na'r 3,320 a oedd yn gwrthwynebu neu'n gwrthwynebu'n gryf yng Nghwestiwn 8.

Dywedodd 50% fod ganddyn nhw ormod o wastraff gweddilliol. Bydd aelwydydd mwy yn naturiol yn cynhyrchu mwy o wastraff na rhai llai. Dangosodd dadansoddiad o'r ymatebion hyn fod 62% o'r bobl a ddywedodd fod ganddynt ormod o wastraff gweddilliol yn dod o aelwydydd o 3 neu lai. Er y gallai hyn fod yn arwydd y gall aelwydydd o bob maint gael trafferth gyda chapasiti gwastraff gweddilliol, mae yna hefyd botensial bod y pwyntiau a godwyd yn adran 4.5.3 uchod yn berthnasol, sy'n cynnwys aelwydydd ddim yn defnyddio eu gwasanaeth ailgylchu gwastraff bwyd yn llawn, a phroblemau capasiti Blwch Troli. Dylid nodi bod mwy na chwarter yr ymatebwyr (27%) wedi dweud nad ydynt yn defnyddio eu bin gwastraff bwyd.

Dywedodd 14% arall fod eu cartref yn rhy fawr i gydymffurfio â'r cyfyngiad – mae 13% o gartrefi yn y sir yn fwy na 5 neu fwy (StatsCymru, 2024). Fodd bynnag, dylid

cofio bod gan yr awdurdod gonsesiwn eisoes ar gael i gartrefi mwy gael bin gwastraff gweddilliol mwy ar yr aelwyd cyn belled â bod yr aelwyd yn gallu dangos ei bod yn cymryd rhan yn y gwasanaethau ailgylchu sych a gwastraff bwyd.

Roedd gan 8% bryderon ynghylch cynnydd mewn tipio anghyfreithlon. Nododd 6% broblemau hylendid. Teimlai 5% fod amlder y casgliadau yn rhy hir. Cododd 4% bryderon ynghylch fermin a phlâu (llygod mawr a gwylanod yn gyffredinol). Teimlai 4% fod y Bocs Troli yn rhy fach. Roedd 3% o'r atebion yn rhy benodol i'w categoreiddio ac yn dod o dan 'Arall'. Ailadroddodd 3% arall y gred bod y newid gwasanaeth yn seiliedig ar dorri costau gwasanaethau'r cyngor.

Nododd 1% fod ffrydiau gwastraff penodol i'r aelwyd yn broblem o ran naill ai capasiti neu hylendid. Gwastraff anifeiliaid anwes oedd hwn yn gyffredinol, er bod rhai'n cyfeirio at glytiau, ac mae casgliad dynodedig, ar wahân eisoes yn bodoli ar gyfer y ffrwd hon.

Roedd 1% hefyd yn dymuno i ystod ehangach o ddeunyddiau gael eu hailgylchu ar garreg y drws. Fel o'r blaen, roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â ffilm blastig, er bod nifer o bobl eisiau adfer casgliadau batris a thecstilau.

Nododd 1% arall eu bod yn teimlo y byddai un bin gydag ailgylchu cymysg yn galluogi mwy o ailgylchu; fodd bynnag, mae sylfaen dystiolaeth helaeth[1] o ddata o bob cwr o'r DU sy'n dangos bod awdurdodau Cymru sydd â chyfyngiadau ailgylchu ar wahân a chyfyngiadau gweddilliol llym yn cyflawni'r symiau uchaf o ailgylchu sych a gwastraff bwyd o'r holl awdurdodau lleol ar draws y pedair gwlad.

### 4.9.1. Dadansoddiad Ystod Oedran

Pryder ar draws pob grŵp oedran oedd "Gormod o wastraff gweddilliol", gan gyfrif am oddeutu 44-58% o'r ymatebion ym mhob categori oedran. Roedd yna hefyd rai patrymau sy'n gysylltiedig ag oedran:

- Roedd ymatebwyr rhwng 25 a 44 oed yn llawer mwy tebygol o godi pryderon ynghylch "Maint yr Aelwyd", yn enwedig y rhai rhwng 35 a 44 oed.
- Roedd ymatebwyr hŷn (yn enwedig 65 oed neu hŷn) yn fwy tebygol o sôn am bryderon "Hylendid". Cododd tua 12.6% o ymatebwyr 65 oed a hŷn broblemau hylendid, o'i gymharu â dim ond tua 3-5% mewn grwpiau oedran iau.
- Cynyddodd "Amlder Casglu yn Rhy Hir" yn gyson gydag oedran, gan awgrymu y gallai preswylwyr hŷn fod yn llai cyfforddus gyda chyfnodau storio hirach rhwng casgliadau.
- Codwyd "Cynwysyddion Rhy Fach" yn fwy cyffredin gan ymatebwyr 25-64 oed ac roedd yn llai cyffredin ymhlith ymatebwyr hŷn.

[1] Llywodraeth Cymru, *Glasbrint casgliadau,* 2025, Atodiad 3 (https://www.llyw.cymru/glasbrint-casgliadau-2025)

- Roedd "Pryderon Cynyddol ynghylch Tipio Anghyfreithlon" yn ymddangos yn gyson ar draws y rhan fwyaf o grwpiau oedran oedolion, tua 7-9% yn gyffredinol, sy'n dangos bod y pryder hwn yn cael ei rannu'n eang yn hytrach nag yn benodol i oedran.

Mae'n bosibl bod y dadansoddiad yn awgrymu bod rhesymau gwrthwynebiad yn cael eu llunio'n rhannol gan ffactorau cyfnod bywyd. Mae teuluoedd mewn grwpiau oedran canol yn fwy pryderus am symiau gwastraff a chapasiti aelwydydd, ac roedd trigolion hŷn yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar hylendid, cysur, ac ymarferoldeb storio gwastraff gweddilliol am gyfnodau hirach.

## 4.10 Cwestiwn 10: Dywedwch wrthym am unrhyw bryderon, awgrymiadau neu amgylchiadau cartref a allai effeithio ar sut rydych chi'n ailgylchu a rheoli gwastraff.

Derbyniwyd 3,011 o ymatebion i'r cwestiwn hwn gyda chrynodeb eang o ymatebion yn Nhabl 5 isod.

Tabl 5: Sylwadau eraill ar anawsterau ailgylchu

| Categori | Cyfrif | % |
|---|---|---|
| Cynwysyddion yn rhy fach | 700 | 23% |
| Problemau cynwysyddion | 250 | 8% |
| Eisiau i fwy o ddeunyddiau gael eu hailgylchu | 244 | 8% |
| Proffil gwasanaeth gwahanol | 205 | 7% |
| Arall | 186 | 6% |
| Pryderon ynghylch cynnydd mewn tipio anghyfreithlon | 157 | 5% |
| Problemau gyda chasgliadau | 153 | 5% |
| Pryderon ynghylch fermin/plâu | 151 | 5% |
| Gormod o wastraff gweddilliol | 140 | 5% |
| Dim problemau | 133 | 4% |
| Eraill ddim yn cymryd rhan | 110 | 4% |
| Cardbord mawr | 97 | 3% |
| Maint yr aelwyd | 90 | 3% |
| Hylendid | 70 | 2% |
| Addysg ac ymwybyddiaeth | 69 | 2% |
| Ffrydiau gwastraff penodol i aelwydydd | 55 | 2% |
| Lle ar gyfer storio cynwysyddion | 55 | 2% |
| Gwasanaethau gwastraff eraill yr ALl | 48 | 2% |
| Amlder casglu'n rhy hir | 47 | 2% |

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn berthnasol | 37 | 1% |
| Polisi cenedlaethol | 10 | 0.3% |
| Ailddefnyddio a thrwsio | 3 | 0.1% |
| Diffyg lle storio | 1 | 0.03% |

O ran heriau a/neu broblemau gyda'r gwasanaeth:

Nododd 23% nad oedd gan y Bocs Troli ddigon o gapasiti (yn gyson â Chwestiwn 4). Cododd 8% broblemau gyda'r Bocs Troli (tywydd garw, difrod ac ati), ac roedd 8% arall eisiau casglu ystod ehangach o ddeunyddiau ar garreg y drws.

Rhestrodd 5% broblemau casglu, ac o'r rhain roedd 90 o'r 153 o ymatebion yn cynnwys un neu fwy o sylwadau yn ymwneud â sbwriel o ganlyniad i gasgliadau, cynwysyddion a ddychwelwyd wedi'u difrodi, anawsterau i'r deiliad tŷ drin cynwysyddion (oherwydd oedran/galluoedd corfforol).

Dywedodd 3% fod yr anallu i ailgylchu cardbord mawr yn rhwystr/pryder. At ei gilydd, mae problemau ynghylch casgliadau ailgylchu yn cyfateb i 47% o'r ymatebion.

Nododd 5% fod cynnydd mewn tipio anghyfreithlon yn bryder. Cododd 5% arall bryderon ynghylch fermin a phlâu. O'i gymharu â chwestiynau eraill roedd nifer yr ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt ormod o wastraff gweddilliol yn is, sef 5%.

Dywedodd 4% o'r ymatebwyr na fyddent yn cael unrhyw broblemau gyda chasgliadau bob 4 wythnos. Dywedodd 4% arall y byddent hwy eu hunain yn gallu cydymffurfio â chasgliadau bob 4 wythnos ond bod ganddynt bryderon na fyddai eraill – ac y byddai hyn yn arwain at broblemau eraill fel mwy o dipio anghyfreithlon neu fermin/plâu.

Roedd ymatebwyr a nododd maint yr aelwyd fel rhwystr neu bryder yn is, sef 3%, yn ogystal â phryderon hylendid, sef 2%.

Ymhlith eu hymatebion, cododd 11 o'r cyfranogwyr faterion yn ymwneud ag ansawdd y bagiau leinio cadi bwyd a gyflenwir.

## 4.11 Cwestiwn 11: Beth yw eich cod post? Mae hyn yn ein helpu i ddeall gwahanol dueddiadau mewn gwahanol rannau o Ynys Môn.

Rhoddodd 4053 o ymatebwyr fanylion cod post llawn neu rannol, gyda'r dosbarthiad yn cael ei ddangos yn Ffigur 7 isod.

Dangoswyd bod un ymateb yn Gaunton, Lloegr, a gadwyd oherwydd yr effaith ddibwys ar y dadansoddiad.




Ffigur 7: Dosbarthiad yr ymatebion

## 4.12 Cwestiwn 12: Faint o bobl sy'n byw yn eich cyfeiriad?

Crynhoir y data maint aelwydydd a roddwyd yn Ffigur 8 ar y dudalen ganlynol. Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr fod 2-3 o bobl yn byw yn eu cyfeiriad ac roedd gan dros draean 4 neu fwy ar yr aelwyd.




Ffigur 8: Faint o bobl sy'n byw yn eich cyfeiriad?

Cymharwyd y data maint aelwydydd â'r data demograffig diweddaraf sydd ar gael ar feintiau aelwydydd Ynys Môn (StatsCymru, 2024), er mwyn asesu cynrychiolaeth yr ymatebion i'r arolwg. Dangosir cyfran maint yr aelwydydd o ymatebion yr arolwg o'i gymharu â data StatsCymru yn Ffigur 9.




| | 1 person | 2 person | 3 person | 4 person | 5 person neu fwy |
|---|---|---|---|---|---|
| StatsCymru, 2024 | 34% | 36% | 14% | 10% | 5% |
| Arolwg | 12% | 35% | 18% | 23% | 13% |

Maint yr Aelwyd

Ffigur 9: Cynrychioldeb maint aelwydydd yr arolwg

Mae'n dangos bod aelwydydd 1 person wedi'u tangynrychioli yn ymatebion yr arolwg – 12% o'r ymatebion o'i gymharu â 34% o gyfanswm yr aelwydydd yn yr ardal, gydag aelwydydd 4 a 5+ wedi'u gorgynrychioli'n helaeth, 23% a 13% o'i gymharu â 10% a 13% yn y drefn honno. Mae'n bosibl bod yr or-gynrychiolaeth hon o aelwydydd mwy a'r dan-gynrychiolaeth o aelwydydd llai yn gysylltiedig â natur y newid sy'n cael ei ymgynghori arno, gan fod gostyngiad mewn capasiti gweddilliol/amlder casglu yn debygol o gael ei ystyried gan aelwydydd mwy fel mwy o broblem – gan ysgogi ymatebion.

## 4.13 Cwestiwn 13: Beth yw eich ystod oedran?

Mae data oedran a roddwyd gan ymatebwyr wedi'i grynhoi yn Ffigur 10.




Ffigur 10: Beth yw eich ystod oedran?

Cynhaliwyd cymhariaeth o ddata oedran ymatebwyr a gyflenwyd gan ymatebwyr yn erbyn ystadegau oedran presennol ar gyfer Ynys Môn (StatsCymru, 2024) ac fe'i dangosir yn Ffigur 11.




| | Dan 18 | 18 i 24 | 25 i 34 | 35 i 44 | 45 i 54 | 55 i 64 | 65 neu hŷn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| StatsCymru, 2024 | 19% | 6% | 10% | 11% | 12% | 16% | 27% |
| Arolwg | 0% | 2% | 13% | 22% | 21% | 21% | 20% |

Oedran

Ffigur 11: Cynrychioldeb oedrannau yn yr arolwg

Mae'r canlyniadau'n dangos tuedd samplu cymedrol tuag at ymatebwyr 35–64 oed, gyda thangynrychiolaeth o oedolion iau a grwpiau oedran hŷn. Er y gall y dosbarthiad demograffig anghynrychioliadol hwn fod yn nodweddiadol o ymatebion gwirfoddol[2] i ymgynghoriad, gall ddylanwadu ar y canfyddiadau cyffredinol, yn enwedig lle mae agweddau ac ymddygiadau'n amrywio yn ôl oedran. Felly, dylid dehongli'r canfyddiadau fel rhai sy'n adlewyrchu barn aelwydydd o oedran gweithio yn well, a allai fel arfer fod yn ymwneud yn fwy â gweithgareddau rheoli gwastraff.

## 4.14 Cwestiwn 14: Ydych chi'n defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau hyn? Dewiswch bob un sy'n berthnasol i chi.

Roedd gan yr ymatebwyr y gwasanaethau canlynol i ddewis o'u plith:

- 14.1. Casglu â chymorth
- 14.2. Casglu clytiau plant.
- 14.3. Casglu gwastraff hylendid.
- 14.4. Dim ohonyn nhw.

Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 12.




Ffigur 12: Pa wasanaeth ydych chi'n ei ddefnyddio?

[2] Groves et al., 2009; Canllawiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ragfarn arolygon

Fel y gwelir, dim ond 10% o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau hyn.

## 4.15 Cwestiwn 15: Ydych chi'n credu y byddai unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth ailgylchu a chasglu gwastraff yn effeithio ar y Gymraeg?

Cynhwyswyd cwestiwn ychwanegol yn gofyn i ymatebwyr eu barn ar yr effeithiau y gallai newidiadau i'r gwasanaeth casglu ailgylchu a gwastraff eu cael ar y Gymraeg. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried:

- Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg,
- Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un fath â'r Saesneg,
- Sut y gellir cynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg,
- Sut gellir gwella unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu y byddai newidiadau i wasanaethau casglu gwastraff ac ailgylchu yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg, gyda llawer o ymatebwyr yn nodi "na", "dim", neu "dim effaith", neu "ddim yn berthnasol" yn unig.

Pwysleisiodd nifer llai o ymatebwyr bwysigrwydd parhau i ddarparu gwybodaeth, arwyddion a chyfathrebiadau â chwsmeriaid yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â'r safonau presennol. Awgrymodd rhai ymatebwyr welliannau bach, fel labelu dwyieithog cliriach ar finiau, sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, neu ddefnyddio newidiadau i wasanaethau fel cyfle i hyrwyddo'r iaith drwy ei gwelededd a'i defnyddio bob dydd. Mae'r ymatebion hyn yn dangos cefnogaeth gyffredinol i'r Gymraeg, ond o fewn cyd-destun cynnal y ddarpariaeth bresennol yn hytrach na'i chysylltu'n uniongyrchol â newidiadau i wasanaethau.

Nododd nifer fach o ymatebion effeithiau anuniongyrchol. Roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar lai o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio achlysurol (e.e. llai o sgyrsiau gyda chriwiau casglu os yw gwasanaethau'n llai aml), effeithiau posibl ar gyflogaeth leol i siaradwyr Cymraeg, neu ffactorau economaidd-gymdeithasol ehangach fel newid yn y boblogaeth. Tynnodd nifer fach sylw hefyd at bryderon ehangach am y Gymraeg nad ydynt yn gysylltiedig â gwasanaethau gwastraff, megis pwysau tai neu newid demograffig.